## Modiwl 5 Amlinelliad Dros Dro o'r Cwmpas

### Caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol

Bydd y modiwl hwn yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ynghylch caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol sy'n ymwneud â gofal iechyd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, gan gynnwys PPE, peiriannau anadlu ac ocsigen.

Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i gadernid ac effeithiolrwydd prosesau caffael, digonolrwydd yr eitemau a gafwyd (gan gynnwys eu manyleb, ansawdd a chyfaint) ac effeithiolrwydd eu dosbarthu i'r defnyddiwr terfynol. Bydd yn archwilio unrhyw heriau a brofwyd ac yn ceisio tynnu gwersi i'w dysgu.

Bydd hefyd yn ystyried caffael profion llif unffordd a phrofion PCR ledled y DU.

Bydd y meysydd i'w cwmpasu yn y modiwl hwn yn cynnwys:

1. Bodolaeth ac effeithiolrwydd prosesau, gweithdrefnau a/neu ddarpariaethau cytundebol sydd ar waith ar gyfer caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau gofal iechyd allweddol i'r defnyddiwr terfynol cyn ac yn ystod y pandemig, addasrwydd a gwydnwch y cadwyni cyflenwi a pha newidiadau, os o gwbl a gafodd eu gwneud i brosesau caffael yn ystod y pandemig ac sydd wedi cael eu gwneud ers hynny. Bydd hyn yn cynnwys archwilio:
    a. Gwerth cyffredinol y contractau a ddyfarnwyd;
    b. Parodrwydd, gan gynnwys pentyrrau stoc sy'n bodoli eisoes, rheoli stocrestrau ac addasrwydd;
    c. Rheolaethau gwariant;
    d. Camau a gymerwyd i ddileu twyll a chyffredinrwydd twyll;
    e. Gwrthdaro buddiannau;
    f. Perfformiad cytundebol gan gyflenwyr a chynhyrchwyr;
    g. Cydymffurfio ag egwyddorion a rheoliadau caffael cyfraith gyhoeddus;
    h. Bod yn agored a thegwch, gan gynnwys y 'lôn blaenoriaeth uchel';
    i. Penderfyniadau ynghylch beth i'w brynu am ba gost a strategaethau gwaredu;
    j. Bodolaeth unrhyw gamweinyddu.
2. Caffael cyfarpar a chyflenwadau gofal iechyd allweddol i'r defnyddiwr terfynol yn y cyfnod cyn ac yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys bodolaeth ac effeithiolrwydd gweithdrefnau, prosesau a chyfathrebu rhwng cyrff perthnasol y pedair gwlad mewn perthynas â chaffael a'r defnydd a wneir o drefniadau cydgymorth yn ystod y pandemig.
3. Gweithrediad ac effeithiolrwydd unrhyw gyfundrefnau rheoleiddio a/neu oruchwyliaeth (naill ai gan yr awdurdod caffael neu'r defnyddiwr terfynol) mewn perthynas ag offer neu gyflenwadau meddygol allweddol yn ystod y pandemig gan gynnwys:

a. Canllawiau a gyhoeddwyd gan y cynghorwyr, rheoleiddwyr a/neu'r llywodraeth berthnasol;

b. Yr angen am, ac effeithiolrwydd y safonau sy'n ofynnol gan yr MHRA a'r BSI;

c. Effaith unrhyw newidiadau i gyfaint, manylebau technegol a/neu ansawdd y cynhyrchion a gafodd eu caffael;

d. Y broses ddilysu gan gynnwys meincnodau ac ailddilysu;

e. Pryderon diogelwch (bodolaeth pryderon o'r fath a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw gan y rhai sy'n gyfrifol am gaffael).